CYFARFOD DATBLYGU'R AMGYLCHEDD - COFNODION

Dydd Mawrth 8fed Medi 2026 - 7.30yh Neuadd Goffa

Presennol:

Ward Braint	**Ward Gwyngyll**
Alun Jones	Medwyn Roberts (Cadeirydd)
Ian Roberts	Gareth Cemlyn Jones
Alys Moules Jones	Gwynfor Parry
Rhian Cahill	John Roberts

1.0	**Ymddiheuriadau**	**Gweithredu**	**Erbyn**
	Gillian Morris (Clerc)		
2.0	**Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd**	**Gweithredu**	**Erbyn**
	Penodwyd Medwyn Roberts fel Cadeirydd ac Alys Moules Jones fel Is-Gadeirydd.		
3.0	**Datgan Diddordeb**	**Gweithredu**	**Erbyn**
4.0	**Camau Gweithredu a ddygwyd ymlaen o gyfarfodydd blaenorol**	**Gweithredu**	**Erbyn**
4.1	Gan mai hwn oedd cyfarfod cyntaf Grwp Datblygu'r Amgylchedd, cytunwyd i beidio canolbwyntio ar yr hen gofnodion, ond cychwyn gyda llechen lan. Cytunwyd bod angen i gyfarfodydd y grwp fod yn fisol er mwyn sicrhau cynnydd. Cytunwyd i yrru dyddiadau am y flwyddyn allan ar ôl y cyfarfod, ac na ddylid ail-drefnu neu ganslo unrhyw gyfarfod heb ganiatâd y cadeirydd.		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Amgylchedd ac Eiddo 03.03.2026**	**Gweithredu**	**Erbyn**
5.1			
6.0	**Trafod**	**Gweithredu**	**Erbyn**
6.1	**Y Fynwent Newydd** Er fod ansicrwydd os oedd y mater hwn i'w drafod yn y Grwp yma, nodwyd y gwybodaeth canlynol:		

	Mae adroddiad yn dilyn yr archwiliad ardal wedi dangos na fyddai'r tir ychwanegol presennol yn addas i gladdu cyrff, dim ond llwch. Mae pwyllgor y Fynwent wedi ystyried opsiynau pellach ond bod rhain yn gostus. Ar hyn o bryd 14 lle newydd sydd ar ôl, a 45 o blotiau wedi eu prynu yn barod. Rhagwelir bod 2-3 mlynedd o ddefnydd ar y safle cyfredol. Mater i'w drafod yn y cyngor llawn ar yr 22ain o Fedi.		
6.2	**Grant Balchder mewn Bro** Mae'r Clerc bellach wedi derbyn cadarnhad o'r grant uchod o oddeutu £29k. Mae trefniadau wedi cyflawni i archebu offer ymarfer corff oedolion, meinciau picnic (addas ar gyfer cadeiriau olwyn), potiau blodau etc. ar gyfer y safle wrth ochr y pafiliwn. Rhagwelir felly y bydd y gwaith yn cychwyn er mwyn ei gwblhau cyn dyddiad amodau'r grant ym mis Hydref. O fewn y grant mae arian wedi neilltuo ar gyfer paent i beintio a twtio'r Pafiliwn. Y gobaith yw y gellir galw ar wirfoddolwyr i gwblhau'r gwaith peintio. Cafwyd trafodaeth ynglŷn a defnydd Y Pafiliwn. Rhagwelir bod gwaith Iechyd a Diogelwch, addasu a gwella'r ystafelloedd newid, gosod cegin newydd a darparu adnoddau toiled angen eu cwblhau cyn byddai'r adeilad yn addas i ail agor. Cytunwyd fyddai hwn felly yn gynllun tymor hir, ac I'w drafod unwaith fydd y gwaith twtio uchod wedi gwblhau. Rhoddwyd diweddariad ar y trefniadau ar gyfer cae chwarae y plant ar Y Gors. Mae trefniadau mewn lle i geisio am y Grant Ynys Mon ym mis Hydref, ac wedyn fydd modd defnyddio templed y grant hon ar gyfer ceisio am grantiau eraill e.e. Loteri. Rhagwelir fydd y gwaith yn cychwyn o fewn y 12 mis nesaf. Mae trefniadau mewn lle i grwp Y Gors gyfarfod yn fisol o rwan ymlaen. Gofynwyd a fyddai modd hefyd edrych ar beintio y meinciau pren o gwmpas y pentref, gan fod rhai ohonynt bellach yn edrych yn fler. Nodwyd y byddai hyn yn cael ystyriaeth o fewn defnydd y grant Balchder mewn Bro. Cytunwyd i ddiolch yn ffurfiol I'r clerc am y gwaith sydd wedi gwblhau hyd yma ar safle Y Gors.		
6.3	**Cynllun Lle**		

	Rhannwyd ddogfen Cynllun Lle ar gyfer Llanfairpwllgwyngyll gan y Cadeirydd. Cyfeiriwyd hefyd at y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Pawb i weld yn gytûn bod y ddogfen Cynllun Lle yn cynnig rhaglen waith clir ar gyfer y grwp. Fel rhan o'r drafodaeth nodwyd y materion canlynol fel blaenoriaethu cyfredol: 1. Arafu traffig (traffic calming) - cytunwyd bod y clerc yn gyrru llythyr ffurfiol i Gyngor Ynys Môn yn gofyn am ddiweddariad ynglŷn a materion trafnidiaeth y pentref. Pawb y fewn y grwp yn awyddus gweld datblygu trenfiadau arafu traffig o fewn y pentref, e.e. goleuadau fflachio cyflymder ar yr A5. 2. Parhau i ddatblygu'r Gors a harddu'r ardal. 3. Harddu'r ardal – pawb o'r farn bod angen amserlen a cynllun gwaith ar gyfer harddu pob ardal o fewn y pentref. Hyn yn cynnwys adnoddau newydd a cynllun cynnal a chadw blynyddol mewn lle i sicrhau nod adnoddau yn cael eu gwarchod. 4. Sefydlu ardaloedd coed ar draws y pentref a creu llecynnau penodol gyda enwau priodol ymhob ardal. Trafod defnydd y darn tir tu ôl I'r syrjeri. 5. Gwella ag adeiladu ar y berthynas rhwng a cyngor a busnesau ag asiantaethau o fewn y Pentref. E.e. Yr orsaf drên a cytuno defnydd diwylliannol a chymunedol ar gyfer yr adeilad mewn cydweithrediad a Pringles; ehangu y drafodaeth a chydweithio gydag Ymddiriedolaeth Twr Marcwis. 6. Pawb yn gytûn bod angen cychwyn ar y pethau amlwg e.e. 'quick wins'.		
6.3			
6.4	**Maes Parcio Y Gors** Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu'n ffurfiol at y cynghorwyr ardal am ddiweddariad ar y cais am Swyddog Dirwyon Parcio cyn cyfarfod llawn y Cyngor Bro ar yr 22ain o Fedi.		
6.0	**Dyddiad Cyfarfod Nesaf**		
	Cynhelir y cyfarfod nesaf: 10fed Tachwedd 2026 am 7:30yh		